22

Pen-y-cloddiau

Cefnen fynydd, bryngaer a golygfeydd eang

Pellter: 11.2km / 7 milltir (dewis o deithiau byrrach)

Amser: Tua 4 - 4.5 awr

Parcio a chychwyn: Maes parcio Llangwyfan

Cyf. Grid: SJ139668, Map OS Explorer 265

Graddfa: Egniol (dringo serth)

Cyfleusterau: The Kinmel Arms, Waun, ffôn:01824 790291; Y Ceffyl Gwyn, Llandyrnog

Ridge walking and hillfort with panoramic views

Distance: 11.2km / 7 miles (shorter options available)

Time: Allow 4 - 4.5 hours

Parking and start: Llangwyfan car park

Grid ref: SJ139668, Explorer map 265

Grade: Strenuous (steep ascents)

Facilities: The Kinmel Arms, Waen, tel: 01824 790291; The White Horse, Llandyrnog



Y Daith Gerdded

1. Yng nghornel y maes parcio, ewch drwy'r giât arwyddedig 'Penycloddiau'. Ewch ar lwybr y goedwig ar y llaw dde am ychydig o fetrau ac yna tueddu i'r dde i lwybr cul ar ymyl y goedwig, gan ddilyn Llwybr Clawdd Offa (LlCO) ac arwydd y fesen wen. Ewch ymlaen i fyny'r llwybr hwn at fynegbost a chamfa ar y llaw dde. Croeswch hon i'r mynydd agored a dal i ddilyn LlCO dros fryngaer Penycloddiau. O'r copa, dilynwch y llwybr cerrig tua'r gogledd (tua'r mast) gan groesi camfa a dal ymlaen ar LlCO am tuag 1km.

2. Ar y bwlch sy'n groesffordd lonydd gwyrdd, trowch yn siarp i'r chwith gan adael LlCO. Anwybyddwch y gamfa/giât ar y dde. Ewch drwy'r giât nesaf ac yn syth ymlaen ar gyffordd llwybrau. Dilynwch y llwybr clir hwn am tua 2.5km, ewch drwy chwe giât cyn cyrraedd y ffordd. Trowch i'r chwith ar y ffordd.

Y Daith fyrrach:
Ymhen 100m i fyny'r ffordd trowch i'r chwith i lwybr llydan y goedwig wrth y rhwystr melyn a du. Dilynwch y llwybr hwn ar i fyny ac yn ôl i faes parcio Llangwyfan.

3. Dilynwch y ffordd o gwmpas i'r dde am tua 150m. Ar ôl croesi'r nant, trowch i'r dde i'r llwybr llydan (arwydd ceffyl). Ewch drwy giât a dilyn y llwybr y tu ôl i 'Pen y Bryn' sydd ar hanner ei adeiladu. Ymlaen ar y llwybr hwn o gwmpas y bryn am tua 2km, gan fynd drwy 4 giât. Ar ôl y bedwaredd giât, dilynwch y llwybr sy'n tueddu i'r dde. Bydd y ffens ar y dde. Ewch drwy giât arall a dal i ddilyn y llwybr clir ar ochr y bryn nes cyrraedd y giât ddiwethaf ac i'r ffordd. Trowch i'r chwith a cherdded i fyny'r ffordd i'r maes parcio bychan o dan Moel Arthur.

4. O'r maes parcio, trowch i'r chwith i ailymuno â LLCO, arwyddedig 'Coed Llangwyfan'. Daliwch

Pen-y-cloddiau

AHNE Bryniau Clwyd
Clwydian Range AONB

ymlaen ar LLCO o amgylch godre bryngaer Moel Arthur. (I fynd i ben y gaer , trowch i'r chwith wrth y garreg arwydd). Ewch ymlaen ar LlCO dros y rhostir. Croeswch y gamfa i'r caeau a cherdded ar i lawr, gan ddal i ddilyn LLCO. Croeswch gamfa arall a dal i fynd i lawr tua'r ffordd. Croeswch y gamfa ac yna trowch i'r dde ar hyd y ffordd ac yna i'r chwith ac yn ôl i faes parcio Llangwyfan.

The Walk

1. At corner of car park go through gate signed Pen-y-cloddiau. Take the right-hand forest track for a few metres and then bear right onto a narrow path along the forest edge, following Offa's Dyke Path (ODP), signed with a white acorn. Continue up this path until you reach a stile on the right. Cross onto the open moorland and continue to follow ODP over Pen-y-cloddiau hillfort. From the summit follow the stone path northwards (towards mast), crossing a stile and continuing to follow ODP for about 1km.

2. At a pass crossed by unsurfaced green lanes turn sharp left onto a track leaving ODP and ignoring stile/gate right. Go through a gate and continue ahead at track junction. Follow this clear track for about 2.5km, going through 6 gates, before reaching a road. Turn left onto the road.

For a shorter route:
100m up the road turn left onto a forest track beside a yellow and black barrier. Follow this track uphill back to Llangwyfan car park.

3. Follow road round to right for about 150m and, just after crossing a stream, turn right onto a track (horse rider sign). Go through a gate and follow the path behind a partly built house. Continue on path that contours around the hillside for about 2km, going through 4 gates. After the fourth gate follow the path as it bears right, keeping fence on right. Go through another gate then continue to follow the clear path along the hillside until you reach a final gate onto the road. Turn left and walk up the road to the small car park below Moel Arthur.

Corhedydd y waun
Meadow pipit

4.From the car park turn left to rejoin ODP, signed Coed Llangwyfan. Continue on ODP around the base of Moel Arthur hillfort. (Detour left at the stone waymarker, to climb up to the hillfort). Continue on ODP across the moorland. Cross a stile into fields and walk downhill, still following ODP. Cross another stile and continue down towards the road. Cross the stile then turn right along the road and left back into Llangwyfan car park.

Codwyd bryngeyrydd Penycloddiau a Moel Arthur yn ystod Oes yr Haearn, rhwng tua 800CC a 43OC, dros 2,500 o flynyddoedd yn ôl. Aneddiad wedi'i amddiffyn oedd bryngaer. O gwmpas y clystyrau o dai pren roedd rhagfuriau, sef cylchoedd o gloddiau a ffosydd. Yn aml iawn roedd ffens bren, a elwir yn balisâd, ar ben y rhagfuriau. Adeiladwyd y bryngeyrydd ar ben bryniau er mwyn cael gweld ymhell.

Penycloddiau yw un o fryngeyrydd mwyaf Cymru. Yn ddiweddar, darganfuwyd yng nghanol y fryngaer beth all fod yn 33 o lwyfannau cytiau (sef y seiliau gwastad yr adeiladwyd y tai crwn arnynt). Er bod Moel Arthur yn llai o lawer mae yma ragfuriau mawr a thrawiadol ar yr ochr ogleddol.

Pen-y-cloddiau and Moel Arthur hillforts date to the Iron Age, around 800BC to 43AD, over 2,500 years ago. Hillforts were defended settlements made up of rings of banks and ditches, called ramparts, that encircled groups of wooden roundhouses. The ramparts were often topped with a wooden fence called a palisade. They were usually built around a hilltop, which means they could see and be seen for many miles.

Pen-y-cloddiau is one of the largest hillforts in Wales. Recently 33 possible hut platforms (the level base on which a roundhouse would be built) have been found in the middle of the hillfort. Although Moel Arthur is much smaller it has extremely large and impressive ramparts on its northern side.

Ceffyl Gwyn, Llandyrnog
Yn y tafarndy croesawgar hwn cewch gwrw go iawn ac mae'n enwog am fwyd da. Ar agor o ddydd Mawrth i ddydd Sul ac ar yr Ŵyl Banc. Bwyd ar gael ar amser cinio a fin nos.
Ffôn: 01824 790582

The White Horse, Llandyrnog
This welcoming village inn serves real ales and is renowned for its good food. It opens from Tuesday - Sunday and on Bank Holidays and serves food at lunchtimes and evenings.
Tel: 01824 790582